# Addoliad: Sylfeini

Cyflwyniad i baratoi ac arwain addoliad
yn yr Eglwys Fethodistaidd



Addoli:
arwain a
phregethu

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

# Cynnwys


**Addoliad: Sylfeini** ..... 3

Cyflwyniad i baratoi ac arwain addoliad yn yr Eglwys Fethodistaidd ..... 3

**Eitemau 'bwydlen' addoli** ..... 4

**Creu eich bwydlen eich hun** ..... 7

Dechrau o'r dechrau – gwneud eich gwaith paratoi ..... 7

Ble i ddechrau ..... 7

**Clywed Gair Duw** ..... 9

Troi at yr Ysgrythurau ..... 9

Gwrando am Dduw drwy esbonio'r Ysgrythurau a dehongli Gair Duw ..... 11

**Amser dechrau cynllunio'r weithred o addoli** ..... 13

Cam 1: Troi at yr Ysgrythurau ..... 13

Cam 2: Gwrando ar Dduw drwy esbonio'r Ysgrythurau a dehongli Gair Duw ..... 14

**Ymateb** ..... 15

Rhoi diolch ..... 15

Gweddïo drosom ein hunain, dros eraill a thros fyd Duw ..... 16

Cysegru ein bywydau i wasanaeth Duw ..... 19

**Yn ôl at y cynllunio** ..... 21

Cam 3: Ymateb ..... 21

**Ymgasglu** ..... 22

Dynesu at Dduw ..... 22

Addoli Duw ..... 23

Cyffesu ein pechodau ..... 25

Cynnig sicrwydd o faddeuant Duw ..... 26

Rhoi diolch ..... 27

**Yn ôl at y cynllunio** ..... 29

Cam 4: Ymgasglu ..... 29

**Anfon** ..... 30

Mynd allan i fyw fel disgyblion ..... 30

**Yn ôl at y cynllunio** ..... 32

Cam 5: Anfon ..... 32

Cam 6: Adolygu a meddwl sut y bydd yn gweithio ..... 32

Cam 7: Rhoi cnawd am yr esgyrn ..... 32

**Datblygu eich sgiliau** ..... 34

**Atodiad** ..... 36



**Ffynonellau**

Daw Cwestiwn 46 o *A Catechism for the Use of People called Methodists* (Peterborough, Methodist Publishing House, 2000) © TMCP. Defnyddiwyd gyda chaniatâd

Mae Salm 150 ar dudalen 10 yn dod o *Caneuon Ffydd* 978, Cedwir pob hawl. Hawlfraint Pwyllgor y Llyfr Emynau Cydenwadol

Mae'r weddi ar dudalen 16 yn gyfieithiad o waith Nick Fawcett, *Prayers for All Seasons* (Suffolk, Kevin Mayhew Ltd, 1998). Defnyddiwyd gyda chaniatâd.

Daw'r gweddïau a'r deunydd litwrgaidd ar dudalennau 17-18, 23, 26, 27, 30-31 o *Lyfr Addoliad y Methodistiaid* (Peterborough, Methodist Publishing House, 1999) © TMCP. Defnyddiwyd gyda chaniatâd.

Mae'r weddi ar dudalen 23 i'w gweld yn *Llyfr Addoliad y Methodistiaid* (Peterborough, Methodist Publishing House, 1999). Mae wedi'i addasu o weddi yn *Uniting in Worship* (1988, 2005) © The Uniting Church in Australia Assembly Commission on Liturgy. Defnyddiwyd gyda chaniatâd.

Mae'r weddi ar dudalen 24 yn gyfieithiad o © Ian Worsfold. Defnyddiwyd gyda chaniatâd.

Daw'r dyfyniadau o'r Ysgrythur o'r *Beibl Cymraeg Newydd Argraffiad Diwygiedig*, hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2004 Defnyddiwyd gyda chaniatâd. Cedwir pob hawl.

# Addoliad: Sylfeini

## Cyflwyniad i baratoi ac arwain addoliad yn yr Eglwys Fethodistaidd

Mae addoli yn ganolog i bopeth a wnawn fel Cristnogion. Fel arweinydd addoli neu bregethwr lleol, mae gennych chi gyfrifoldeb enfawr i arwain pobl Dduw mewn addoliad ac i'w harwain yn dda. Mae'r llyfryn hwn yn cynnig fframwaith ddylai eich helpu i lunio gwahanol wasanaethau addoli. O'r dechrau'n deg rydyn ni am eich annog i fod yn greadigol yn eich cynllunio ac wrth i chi arwain addoliad, felly dylai'r fframwaith sy'n cael ei gyflwyno fan hyn gael ei ystyried yn sgerbwd i adeiladu arno yn hytrach na bod yn wasgod gaeth. Wedi'r cyfan, mae yna'r un faint o ddulliau addoli ag o addolwyr – felly mae amrywiaeth yn bwysig.

Drwy gydol y cwrs hyfforddi *Addoli: Arwain a Phregethu* byddwn yn dod yn ôl o hyd i'r cwestiwn "Beth yw Addoli?" Am y tro, gadewch i ni gymryd ein diffiniad gweithio o gwestiwn 46 yn *A Catechism for the Use of the People called Methodists* (Peterborough, Methodist Publishing House, 2000):

> "Mae addoli yn golygu cyhoeddi'n llawen, yn nerth yr Ysbryd, weithredoedd rhyfeddol Duw a dathlu ei natur ogoneddus. Rydyn ni'n addoli Duw, nid yn unig mewn gweithredoedd addoli ffurfiol neu anffurfiol, ond hefyd gyda'n bywydau, trwy ei wasanaethu ef wrth wasanaethu pobl eraill."

Wrth i ni gynllunio addoliad, rydyn ni'n ceisio galluogi'r addolwr i ddatgan cyflawnder Duw yn llawen, a phopeth mae Duw wedi ei wneud ac y bydd yn ei wneud.

> Wrth i chi weithio drwy'r defnydd fe welwch fod peth ohono mewn blychau. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi roi ar waith yr hyn rydych newydd ei ddarllen.

# Eitemau 'bwydlen' addoli

Ffordd ddefnyddiol o greu gwasanaeth addoli yw dychmygu eich hun yn dewis eitemau o fwydlen bwyty traddodiadol. Gall bwydlen nodweddiadol gael ei rhannu yn:

**dechreufwyd** **prif gwrs** **pwdin** **coffi**

Rydyn ni fel arfer yn defnyddio 'dewislen' wrth sôn am gyfres o eitemau, ond mae 'bwydlen' yn cyfleu darlun o baratoi pryd o fwyd. Yn yr un modd, gallai 'bwydlen' addoli, boed yn draddodiadol, ar arddull caffi, Llan Llanast neu wasanaeth mawl anffurfiol, gael ei rhannu yn:

**ymgasglu** **clywed** **ymateb** **anfon**

- Mae **ymgasglu** yn dod â ni i ymwybyddiaeth ddyfnach o bresenoldeb Duw.
- **Clywed** Mae Gair Duw yn cadarnhau mawredd a daioni Duw sy'n gweithredu i'n hachub ni. (Gelwir hyn hefyd yn 'Weinidogaeth y Gair'.)
- **Ymateb** yw ein ffordd o fyfyrio ar a dyfnhau ein perthynas gyda Duw.
- Mae **anfon** yn ein hannog i fyw fel disgyblion yn y byd.

Gall hwn fod yn strwythur defnyddiol i alluogi cynulleidfa i wybod beth mae'n ei wneud, ble mae'n mynd a pham mae yn mynd yno.

**Bwydlen**

*Ymgasglu*
Mae'n dod â ni i ymwybyddiaeth ddyfnach o bresenoldeb Duw.

*Clywed*
Mae Gair Duw yn cadarnhau mawredd a daioni Duw sy'n gweithredu i'n hachub ni.

*Ymateb*
yw ein ffordd o fyfyrio ar a dyfnhau ein perthynas gyda Duw.

*Anfon*
Mae anfon yn ein hannog i fyw fel disgyblion yn y byd.

Mae'r tabl isod yn dangos pedair adran y fwydlen, disgrifiad o beth rydyn ni'n ei wneud ar y pwynt hwnnw yn yr addoliad a'r 'cynhwysion' posibl o'n haddoli fel corff allai gael eu gweini ym mhob cwrs. Dylid nodi nad yw'r 'cynhwysion' sy'n cael eu rhestru yn rhai cyflawn. Gall bod eitemau eraill yr hoffech eu cynnwys. Mae'n debygol y bydd nifer o eiriau yn y tabl yn anghyfarwydd – peidiwch â phoeni am hynny gan y bydd popeth yn cael ei esbonio wrth i chi weithio drwy'r llyfryn. Am y tro, mae'n ddigon cael trosolwg o'r gwasanaeth cyfan.

Gan ddibynnu ar sut y byddwch yn llunio eich gweithred o addoli, gall rhai cynhwysion fod mewn llefydd gwahanol (ee gweddi o gyffes, Gweddi'r Arglwydd).

| **Bwydlen Addoli** | **Beth ydyn ni'n ei wneud?** | **Sut ydyn ni'n gwneud hyn? (Cynhwysion posibl)** |
|---|---|---|
| ***Ymgasglu*** | Dynesu at Dduw | • Galwad i addoli<br>• Brawddeg o'r Ysgrythur<br>• Emyn(au) ymgasglu<br>• Gweddi o ddynesiad<br>• Gweddi'r Arglwydd<br>• Tawelwch |
| | Addoli Duw | • Emyn o addoliad<br>• Emyn o fawl<br>• Gweddi<br>• Tawelwch<br>• Salm neu Gantigl Ymatebol (ee *Te Deum*)<br>• Defnyddio lluniau |
| | Cyffesu ein pechodau | • Emyn edifeiriol<br>• Gweddi o gyffes<br>• Tawelwch<br>• Gweddi ryngweithiol |
| | Cynnig sicrwydd o faddeuant Duw | • Datganiad o faddeuant<br>• Emyn o sicrwydd |
| | Rhoi diolch | • Gweddi o ddiolchgarwch<br>• Y Colect<br>• Emyn o ddiolchgarwch<br>• Salm neu Gantigl Ymatebol (ee *Gloria*)<br>• Anerchiad i blant / pob oedran |
| ***Clywed Gair Duw***<br><br>(Gweinidogaeth y Gair) | Troi at yr Ysgrythurau | • Darlleniad(au) o'r Beibl<br>• Salm neu Gantigl Ymatebol<br>• Darlleniad dramatig<br>• Adrodd y stori<br>• Drama yn seiliedig ar y darlleniad<br>• Emyn(au) yn adlewyrchu'r darlleniad o'r Beibl |
| | Gwrando am Dduw drwy esbonio'r Ysgrythurau a dehongli Gair Duw | • Pregeth<br>• Trafodaeth<br>• Holi ac ateb<br>• Myfyrdod<br>• Tawelwch<br>• Defnyddio delweddau |

| | | |
|---|---|---|
| ***Ymateb*** | Rhoi diolch | • Gweddi o ddiolchgarwch<br>• Emyn(au) o ddiolchgarwch |
| | Gweddïo drosom ein hunain, dros eraill a thros fyd Duw | • Gweddïau o eiriolaeth<br>• Gweddïau o ddeisyfiad<br>• Gweddi o gyffes<br>• Emyn o eiriolaeth<br>• Emyn o alaru<br>• Gweddïau rhyngweithiol<br>• Gweddi'r Arglwydd<br>• Defnyddio lluniau |
| | Cysegru ein bywydau i wasanaeth Duw | • Offrwm<br>• Gweddi o gysegriad<br>• Emyn<br>• Galwad i wneud ymrwymiad<br>• Y Cymun Sanctaidd<br>• Gweddi'r Arglwydd |
| ***Anfon*** | Mynd allan i fyw fel disgyblion | • Gair i herio<br>• Gweddi o ollyngiad<br>• Y Fendith |

# Creu eich bwydlen eich hun

Mae llunio gweithred o addoli yn gallu bod yn debyg i ddewis oddi ar fwydlen. Ond dydy hi ddim mor hawdd â hynny. Fel arweinydd addoli neu bregethwr lleol, eich tasg chi yw creu'r fwydlen. Bydd hon yn sgìl y byddwch yn parhau i'w mireinio drwy gydol eich gweinidogaeth.

Bydd cogydd yn gweithio'n galed i ddyfeisio bwydlen gyda chydbwysedd rhwng y cyrsiau er mwyn i bob cwrs gyflenwi'r lleill. Bydd angen i chi hefyd ddatblygu blas ar gyfer beth sy'n gweithio ac ar gyfer beth sydd ddim yn gweithio. Felly, er enghraifft, yn yr un modd â'i bod hi'n anodd dychmygu mynd i fwyty a bwyta pedwar cwrs o bwdinau, yn yr un modd ni fydd diet addoli o ganeuon neu emynau mawl yn unig am sut rydyn ni'n teimlo ond yn rhoi maeth i ni am gyfnodau byr. O fewn pob gweithred o addoli a thros gyfnod hirach o amser, mae'n bwysig cynnig diet cytbwys i gynulleidfa.

## Dechrau o'r dechrau – gwneud eich gwaith paratoi

Efallai y byddwch, erbyn hyn, yn teimlo braidd yn wangalon, neu efallai y byddwch yn teimlo eich bod wedi eich tanio yn barod i baratoi eich gweithredoedd addoli cyntaf. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n amser aros, oedi ac ystyried am ychydig: mae'r tir yr ydych ar fin ei droedio yn dir sanctaidd. Wrth baratoi a chyflwyno addoliad, rydych yn anelu at arwain heb dorri ar draws ffordd Duw a phobl Duw. Felly treuliwch amser i ymlonyddu ac i weddïo. Waeth faint o weithredoedd addoli rydych chi wedi eu paratoi neu eu harwain, mae angen i ni gadw mewn cof eu bod am Dduw ac ar gyfer Duw.

Cyflwynwch i Dduw:

- yr eglwys y byddwch yn ei harwain mewn addoliad
- unrhyw adborth rydych chi wedi ei gael yn dilyn gwasanaethau rydych chi wedi eu harwain o'r blaen
- eich teimladau am y weithred hon o addoli.

Ar ôl gweddïo, mae'n amser cychwyn arni. Efallai mai dyma'r amser i ddod o hyd i'r Ffurflen Cynllunio a Myfyrio ar Wasanaeth. Mae hon wedi'i dylunio i'ch helpu i fyfyrio wrth i chi gynllunio gweithred o addoli. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gallu ateb yr holl gwestiynau ar y funud – canllaw sydd yma, nid arholiad. Efallai y bydd trafod y ffurflen hon gyda'ch mentor yn ddefnyddiol. Gall hefyd fod yn fwy defnyddiol dod yn ôl at y ffurflen ar ddiwedd y broses gynllunio.

## Ble i ddechrau

Efallai mai dechrau yn y dechrau yw'r cyngor gorau fel arfer, ond efallai nad dyna'r lle gorau i gychwyn os ydych chi'n cynllunio addoliad! Wrth i'ch gweinidogaeth ddatblygu byddwch yn canfod eich ffordd eich hun o gychwyn eich cynllunio.

I ddechrau, beth am gymryd arweiniad bwydlen y bwyty. Bydd y cogydd yn aml yn cychwyn gyda'r prif gwrs ac yn cynllunio gweddill y fwydlen o'r fan honno. Mae hyn yn ddefnyddiol gan ei bod yn golygu y bydd y dechreufwyd a'r pwdin yn ategu'r prif gwrs. Felly lle da i gychwyn eich cynllunio yw drwy 'Glywed Gair Duw'. Unwaith y byddwch chi'n

gwybod beth yw eich prif gwrs, yn aml byddwch mewn lle gwell i wybod sut y gallech chi arwain pobl i'r fan hon a sut y gallech chi eu hannog i ymateb.

# Clywed Gair Duw

Yn yr amlinelliad o fwydlen, mae 'Clywed Gair Duw' yn ymddangos fel un o'r adrannau byrraf, ond mewn gwirionedd, dyma sy'n aml yn cymryd hiraf i'w baratoi. Rydyn ni, wrth gwrs, yn clywed Gair Duw drwy gydol addoliad ac yn wir drwy gydol ein bywydau. Yma, yn yr hyn sy'n cael ei alw'n 'Weinidogaeth y Gair', rydyn ni'n astudio'r Ysgrythurau er mwyn gweld beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud wrthym ni heddiw.

| Bwydlen Addoli | Beth ydyn ni'n ei wneud? | Sut ydyn ni'n gwneud hyn? (Cynhwysion posibl) |
|---|---|---|
| ***Clywed Gair Duw***<br><br>(Gweinidogaeth y Gair) | Troi at yr Ysgrythurau | • Darlleniad(au) o'r Beibl<br>• Salm neu Gantigl Ymatebol<br>• Darlleniad dramatig<br>• Adrodd y stori<br>• Drama yn seiliedig ar y darlleniad<br>• Emyn(au) yn adlewyrchu'r<br>• darlleniad o'r Beibl |
| | Gwrando am Dduw drwy esbonio'r Ysgrythurau a dehongli Gair Duw | • Pregeth<br>• Trafodaeth<br>• Holi ac ateb<br>• Myfyrdod<br>• Tawelwch<br>• Defnyddio lluniau |

Drwy gydol y ddogfen hon byddwn yn edrych ar bob adran yn fanylach gan ddefnyddio'r cwestiwn "Beth ydyn ni'n ei wneud?" a "Sut ydyn ni'n gwneud hyn?" wrth i ni geisio disgrifio blas pob un o'r cynhwysion.

## Troi at yr Ysgrythurau

Y Beibl yw ein prif destun fydd yn ein helpu i ddeall pwy yw Duw, sut y mae Duw wedi cael ei amlygu dros y canrifoedd a sut mae Duw'n gweithredu wrth gynnig iachawdwriaeth. Yn fwyaf aml, dyma lle mae arweinwyr addoli yn cychwyn llunio gweithred o addoli a gosod ei thema. Mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu â'r Beibl yn ddifrifol ac yn drefnus. I Gristnogion, gan fod Iesu'n ganolog i'n ffydd, gall fod tuedd i ganolbwyntio ar y Testament Newydd ac i esgeuluso'r Hen Destament. Ond yr Hen Destament oedd y Beibl yr oedd Iesu a'r Cristnogion cyntaf yn ei adnabod, ac mae'r Beibl cyfan yn bwysig i ni wrth adrodd stori iachawdwriaeth.

- **Darlleniad(au) o'r Beibl**
  Mae'r Llithiadur (cylch o dair blynedd o ddarlleniadau, y mae'r Eglwys Fethodistaidd a llawer o enwadau eraill yn ei ddefnyddio) yn cynnig dwy set o ddarlleniadau ar gyfer pob Sul o'r flwyddyn (un ar gyfer y 'prif wasanaeth' ac un ar gyfer 'ail wasanaeth'). Mae

hi'n werth nodi nad oes gan y Llithiadur gyswllt thematig, felly ddylech chi ddim poeni os nad ydych chi'n gallu dod o hyd i gyswllt o'r fath! Mae llithiadur yn ddefnyddiol i fynd â ni o gwmpas y Beibl yn hytrach na chadw at ddarnau cyfarwydd o hyd. Mae yna ffyrdd eraill o ddewis darlleniadau o'r Beibl a chynlluniau darllen eraill hefyd. Mae hyn yn cael ei astudio'n fanylach yn Adran 2.3. Mae'r Llithiadur yn cynnwys awgrymiadau am Salm, darlleniad o'r Hen Destament, o'r Testament Newydd (ar wahân i'r pedair Efengyl) a darn o'r Efengylau. Er nad oes rhaid defnyddio pob un ohonyn nhw, mae'n dda eich bod yn gwybod eich hun pa ddarlleniadau rydych chi'n eu defnyddio ac (efallai'n bwysicach) i fod â dealltwriaeth o pam rydych chi'n eu defnyddio nhw.

- **Salm neu Gantigl Ymatebol**
  Yn hytrach na chael ei darllen yn gyhoeddus, mae modd i'r Salm gael ei hadrodd yn ymatebol neu gellir canu aralleiriad o'r Salm.

  Y Salmau yw'r emynau hynaf yn y traddodiad Cristnogol ac fe gawsant eu hysgrifennu i gael eu canu, er bod y tonau gwreiddiol wedi mynd yn angof. Yn draddodiadol, mae Salmau ymatebol yn cael eu canu'n antiffonaidd gyda chanwr unigol (neu gantor) yn canu'r penillion a gweddill y côr neu'r gynulleidfa yn ymateb. Mae llawer o bregethwyr yn defnyddio testun y Salmau ac yn galw arnynt i gael eu defnyddio'n antiffonaidd (eu hadrodd neu eu canu gan ddau grŵp). Er enghraifft:

  > Molwch yr Arglwydd; molwch Dduw yn ei sancteiddrwydd;
  > **molwch ef yn ffurfafen ei nerth.**
  > Molwch ef am ei gadernid;
  > **molwch ef yn ôl amlder ei fawredd.**
  > Molwch ef â llais utgorn;
  > **molwch ef â nabl ac â thelyn.**
  > Molwch ef â thympan ac â dawns;
  > **molwch ef â thannau ac ag organ.**
  > Molwch ef â symbalau soniarus;
  > **molwch ef â symbalau llafar.**
  > Pob perchen anadl
  > **molianned yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.**

  (Salm 150 – *Caneuon Ffydd* (*CFf*) 878)

  Yma gallai arweinydd yr addoliad arwain y testun print ysgafn, gyda'r gynulleidfa'n ymuno yn y testun print trwm. Ffyrdd da eraill o ddarllen yn antiffonaidd yw'r rhai ar y dde neu ar y chwith, neu leisiau uchel a lleisiau isel. Ffordd arall o ddefnyddio Salm yw canu emyn yn seiliedig ar y Salm, neu aralleiriad. Mae sawl enghraifft o Salmau wedi eu haralleirio yn *Caneuon Ffydd* (ee 75, 120, 148).

- **Darlleniad dramatig o'r Beibl**
  Mae'n gallu bod yn gymorth i'r gynulleidfa ddelweddu'r stori drwy ei gweld yn cael ei darllen yn ddramatig gan fwy nag un llais. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy diddorol ac weithiau'n rhoi golwg newydd ar y stori wrth i ni ei gweld yn cael ei hactio. Mae *Y Beibl wedi ei ddramateiddio* (Cyhoeddiadau'r Gair) a *Darlleniadau Dramatig* ar wefan beibl.net. yn adnoddau da ar gyfer darlleniadau dramatig parod i'w defnyddio. Gallwch, wrth

gwrs, greu eich fersiwn eich hun. Beth bynnag y byddwch yn ei ddewis, argymhellwn yn gryf eich bod yn ymarfer y darlleniad ymlaen llaw.

- **Adrodd y stori**
  Byddai darlleniad dramatig yn cynnwys nifer o bobl yn rhoi llais i bob un o'r cymeriadau mewn darn penodol o'r Beibl, mae adrodd stori yn galw ar sgiliau storïwr unigol. Byddai'n tywys cynulleidfa drwy'r darn drwy ei adrodd yn ei eiriau ei hun fel stori. Mae adrodd stori'n galw am wybodaeth dda o'r darn a gall ychwanegu ffresni i straeon cyfarwydd. Fodd bynnag, mae perygl bob amser bod darn allweddol o'r testun Beiblaidd yn mynd ar goll yn yr adrodd.

- **Drama yn seiliedig ar y darlleniad**
  Mae dewis helaeth o ddramâu parod i'w defnyddio ar gael yn Saesneg. Dydyn nhw ddim o anghenraid yn ail-ddweud darnau o'r Beibl, ond yn hytrach straeon cyfochrog sy'n amlygu agwedd benodol o'r darlleniad, neu berthynas benodol ynddo. Enghraifft dda yw casgliad o sgyrsiau dychmygol rhwng Iesu a Phedr a gyhoeddwyd gan Gymuned Iona *Jesus and Peter* (John L Bell & Graham Maule (Glasgow, Wild Goose Publications, 1999)). Gall drama sydd wedi ei hymarfer a'i chyflwyno'n dda ychwanegu cyfoeth at weithred o addoli. Gall drama sy'n cael ei chyflwyno'n wael wneud y gwrthwyneb yn llwyr!

- **Emyn(au) sy'n adlewyrchu'r darlleniad o'r Beibl**
  Mae canu fersiwn o'r darn o'r Beibl, neu emyn sy'n cynnwys themâu tebyg i'r darn, yn rhoi profiad gwahanol o'r darlleniad i'r gynulleidfa. Mae hefyd yn gallu amlygu gwahanol agwedd o'r testun y gallech chi fod yn edrych arno yn yr addoliad. Dau adnodd defnyddiol yw'r Mynegai i Gynnwys yr Emynau yn *Caneuon Ffydd* (tud. xxix) a gosodiadau Beiblaidd ar alawon gwerin Cymraeg gan Cass Meurig, i'w cael ar wefan gobaith.cymru.

## Gwrando am Dduw drwy esbonio'r Ysgrythurau a dehongli Gair Duw

Mae esbonio'n golygu cyflwyno ac esbonio syniad neu ddamcaniaeth yn fanwl. Bydd llawer o *Addoli: Arwain a Phregeth*u yn canolbwyntio ar sut rydyn ni'n talu sylw i Air Duw. Cewch eich arwain drwy'r Pedrochr Methodistaidd a'r Cylch Bugeiliol (Adran-Fodiwl 1.2 a 4.2) i helpu eich myfyrdod diwinyddol (meddwl a siarad am Dduw). Mae Cristnogion yn credu bod Gair Duw, wedi'i gyfryngu drwy'r Ysgrythur, yn dod yn fyw drwy'r Ysbryd, ym mhobl Dduw a thrwyddynt. Wrth i ni fyfyrio ar Air Duw gallwn ddefnyddio dulliau gwahanol i ystyried beth allai hyn olygu i ni heddiw:

- **Pregeth**
  "Ond sut y mae pobl i alw ar rywun nad ydynt wedi credu ynddo? Sut y maent i gredu yn rhywun nad ydynt wedi ei glywed?" (Rhufeiniaid 10:14) (BCND)

  Mae pregethu wedi bod yn ganolog i addoliad y Methodistiaid ers amser eu sylfaenydd John Wesley. Wrth bregethu rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael ag ystyr y testun yn ei gyd-destun gwreiddiol, i'w wrandäwr gwreiddiol, a beth y gallai fod yn ei ddweud wrthym ni heddiw. Os ydych chi'n hyfforddi i fod yn bregethwr lleol, wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen byddwch yn treulio llawer o amser yn canolbwyntio ar y gwahanol fathau o bregethu, ar sut i baratoi pregeth ac ar sut i'w thraddodi.

- **Trafodaeth**
  Mae trafodaethau a sgwrsio yn ganolog i lawer o'r addoli 'caffi' a gall fod yn ddefnyddiol mewn addoli pob oed hefyd. Yr allwedd i drafodaeth dda yw cwestiynau sydd wedi eu paratoi'n ofalus. Mae angen i chi sicrhau eich bod yn ffurfio cwestiynau sy'n golygu bod pawb yn gallu cyfrannu. Yn y rhan fwyaf o achosion dylai'r rhain fod yn gwestiynau agored (hy rhai sydd angen mwy na dim ond ateb 'ie/na'). Nid yw trafodaeth dda yn llifo pan fydd yr arweinydd addoli'n credu fod ganddo/i yr ateb cywir ac mai dyna lle mae angen i'r gynulleidfa ei gyrraedd!

- **Holi ac ateb**
  Amrywiaeth ar drafodaeth yw gofyn i'r gynulleidfa wrando ar yr Ysgrythur ac yna, mewn grwpiau, trafod pa gwestiynau yr hoffen nhw i chi eu hateb! Nid rhyw ddihangfa i'r pregethwr yw hyn – bydd angen i chi wneud mwy o waith darllen ar y darnau nag efallai y byddech yn ei wneud fel arfer wrth baratoi pregeth, ac efallai na fydd angen llawer iawn o'r wybodaeth y byddwch yn ei chasglu, ond o leiaf byddwch yn barod amdani!

- **Myfyrdod**
  Gall myfyrdod fod yn nifer o bethau. Gall fod yn adnodd ar bapur, megis darlleniad dramatig o *Does Debyg Iddo Fe* (Cyhoeddiadau'r Gair), sy'n cynnig myfyrdodau o safbwynt gwahanol gymeriadau o'r Beibl. Neu gall fod yn fater o annog y gynulleidfa i ddychmygu eu hunain o fewn y stori a'u gwahodd i ymateb yn ddychmygus i'r olygfa. Fel arall, gall ddigwydd trwy ddefnyddio technegau Lectio Divina (y byddwn yn edrych arno yn ddiweddarach yn y cwrs). Mae llawer o lyfrau ar fyfyrio ar y farchnad a llawer mwy ar y we. Un ffynhonnell dda (yn Saesneg) yw theworshipcloud.com. Yr allwedd i fyfyrio yw canfod enghreifftiau sy'n ddilys i'r arddull o addoli rydych chi'n ei baratoi a chanfod y bobl iawn i'w cyflwyno. Mae hyn yn gofyn am sgil ac amseru.

- **Tawelwch**
  Mae rhoi cyfnod hir o fyfyrio tawel (hyd at ddeng munud) yn gallu bod yn ddefnyddiol i rai pobl. Bydd eraill yn cael y profiad yn anoddach oni bai eich bod yn darparu ffyrdd i'w helpu i orffwys neu i deithio drwy'r tawelwch. Os oes angen esgus arnoch chi i gynnwys tawelwch estynedig, does dim angen edrych ymhellach na 1 Brenhinoedd 19:11-13.

- **Defnyddio delweddau**
  Ym mhob un o'r uchod gall defnyddio lluniau a ffotograffau i egluro eich pwynt ei gwneud hi'n haws i wrando ar Air Duw. Fel gyda phopeth, byddwch yn ofalus rhag eu gor-ddefnyddio gan y byddan nhw'n ymddangos fel gimig ac yn colli eu heffaith yn fuan. Wrth edrych ar ddelweddau ar y we, cadwch mewn cof bod hawlfraint ar rai ohonyn nhw. Mae gan Google offer chwilio sy'n caniatáu i chi ddewis opsiynau heb hawlfraint.

# Amser dechrau cynllunio'r weithred o addoli

Fel y soniwyd eisoes, Troi at yr Ysgrythurau yw lle mae arweinwyr addoli a phregethwyr fel arfer yn cychwyn wrth lunio gweithred o addoli a gosod ei thema. P'un a ydych chi'n dilyn y testun gosod o'r llithiadur, yn gweithio ar thema, neu wedi cael eich ysbrydoli i bregethu ar destun neu syniad neilltuol, mae angen i chi benderfynu pa eitemau (cynhwysion) o'r fwydlen rydych chi am eu cynnwys, pa rai rydych chi am eu gadael allan, ac (yn bwysicaf oll), y rheswm pam.

Y ffordd orau i ddysgu am hyn yw ei wneud. Gwnewch gopi o Atodiad 1, estynnwch am bapur neu ddyfais i gofnodi eich meddyliau a gadewch i ni ddechrau drafftio gweithred o addoli.

## Cam 1: Troi at yr Ysgrythurau

Gan ddefnyddio'r canllawiau uchod mae angen i chi benderfynu sut y byddwch chi'n canfod eich Ysgrythur. Os ydych chi'n cychwyn o thema mae angen i chi feddwl pa ddarn(au) o'r Ysgrythur sy'n darlunio hyn orau; os ydych chi'n defnyddio'r llithiadur, pa un o'r darlleniadau gosod ydych chi am ei ddefnyddio?

[Os ydych chi'n cael trafferth penderfynu ble i ddechrau, beth am gymryd "Ac nac arwain ni i brofedigaeth," fel awgrym am thema neu gallech chi ddefnyddio'r Prif Wasanaeth ar gyfer Sul Cyntaf y Grawys ym mlwyddyn C y Llithiadur sy'n awgrymu Deuteronomium 26:1-11, Salm 81:1-2, 9-16, Rhufeiniaid 10: 8b-13* a Luc 4: 1-13. (Noder: *Mae'r llythrennau bach 'a' a 'b' yn dynodi fod yr adnod wedi ei rhannu'n ddwy adran a'ch bod chi i ddarllen gan gychwyn neu orffen yn y pwynt a nodir).]

Treuliwch ychydig o amser yn ystyried yn weddigar pa ddarlleniadau rydych chi am eu defnyddio fel sail eich gweithred o addoli ac yna gwnewch nodyn ohonyn nhw. Ychwanegwch hyn i'ch grid cynllunio dan Troi at yr Ysgrythurau. Nawr mae angen i chi feddwl am sut y byddan nhw'n cael eu cyflwyno. Ydych chi'n mynd i'w darllen yn syth o'r Beibl, neu wahodd rhywun arall i wneud hynny? Gan ddefnyddio'r enghreifftiau uchod pa ffyrdd eraill o glywed yr Ysgrythurau sy'n bosib?

## Cam 2:
## Gwrando ar Dduw drwy esbonio'r Ysgrythurau a dehongli Gair Duw

Bydd arddull y gwasanaeth a'r math o gynulleidfa yn aml yn pennu sut y byddwch yn mynd ati gyda'r agwedd hon o addoli. Y ffordd fwyaf cyffredin yn addoliad y Methodistiaid yw'r bregeth. Mae arweiniad ar ddehongli (sef defnyddio offer a thechnegau i dalu sylw gofalus i'r testun Beiblaidd er mwyn dysgu am ei gynnwys, pryd y cafodd ei ysgrifennu, sut y cafodd ei ffurfio, a beth oedd yn digwydd ym mywydau'r bobl a'i hysgrifennodd) a pharatoi pregeth ar gael yn Adran-fodiwl 2.1 ac 11.2 ac mae peth cymorth yn y Service Planning and Reflection Form yn adran 2b, ond fel yr ydyn ni eisoes wedi'i nodi mae mwy o ffyrdd o wrando am Air Duw na dim ond gwrando ar y pregethwr.

Gan ddefnyddio'r canllawiau uchod, penderfynwch ar sut y byddwch chi'n annog y gynulleidfa i wrando am Air Duw ac ychwanegwch hynny i'ch grid dan y pennawd Gwrando am Dduw.

Mewn ychydig o frawddegau mae'n rhaid i chi wneud penderfyniadau mawr – fydd y rhain ddim yn hawdd chwaith. Byddwch yn bwyllog a dewch yn ôl at Dduw mewn gweddi wrth i chi feddwl am y weithred o addoli.

# Ymateb

Wedi gosod y prif gwrs mae angen i chi nawr benderfynu beth i'w gynllunio nesaf. Ydych chi'n mynd yn ôl ac yn meddwl am y cwrs cyntaf (sut y byddwch yn casglu pobl i bresenoldeb Duw), neu ydych chi'n meddwl am y pwdin (sut ydych chi'n mynd i annog ymateb)? Er mwyn cadw llif, fe feddyliwn ni am yr ymateb nesaf, ond does dim rheol bendant.

| Bwydlen Addoli | Beth ydyn ni'n ei wneud? | Sut ydyn ni'n gwneud hyn? (Cynhwysion posibl) |
|---|---|---|
| ***Ymateb*** | Rhoi diolch | • Gweddi o ddiolchgarwch<br>• Emyn(au) o ddiolchgarwch |
| | Gweddïo drosom ein hunain, dros eraill a thros fyd Duw | • Gweddïau o eiriolaeth<br>• Gweddïau o ddeisyfiad<br>• Gweddi o gyffes<br>• Emyn o eiriolaeth<br>• Emyn o alaru<br>• Gweddïau rhyngweithiol<br>• Gweddi'r Arglwydd<br>• Defnyddio lluniau |
| | Cysegru ein bywydau i wasanaeth Duw | • Offrwm<br>• Gweddi o gysegriad<br>• Emyn<br>• Galwad i wneud ymrwymiad<br>• Y Cymun Sanctaidd<br>• Gweddi'r Arglwydd |

## Rhoi diolch

Rhoddwn ddiolch i Dduw 'mewn ymateb' i'r hyn rydyn ni wedi'i brofi hyd yn hyn mewn addoliad. Gallen ni fod yn rhoi diolch am glywed neges glir o'r efengyl am sut y mae Duw wedi gweithredu drwy Iesu (dysgu, iachau, maddau, marw, atgyfodi ayyb). Neu gallen ni fod yn diolch am y modd yr ydyn ni wedi cael ein herio mewn agwedd o fod yn ddisgybl. Fel arall, gallen ni fod yn diolch am sut y mae Duw yn ein galw fel Eglwys neu fel disgyblion unigol.

- **Gweddi o ddiolchgarwch**
  Gall hyn fod yn weddi lafar yn cael ei harwain 'o'r blaen' neu'n weddi sy'n cynnwys ymateb gan y gynulleidfa. Mae'n beth da defnyddio amrywiaeth o weddïau gan y bydd hyn yn siwtio'r amrywiaeth o bobl yn y gynulleidfa. Mae llawer o enghreifftiau da wedi eu hysgrifennu gan eraill, er bod croeso i chi, wrth gwrs, ddefnyddio eich geiriau eich hun. Lle da i gychwyn yw defnyddio gweddïau rhywun arall fel fframwaith ar gyfer eich

gweddi eich hun, hyd yn oed os ydych chi'n ail-ysgrifennu eu deunydd nhw yn y pen draw! Dyma enghraifft dda o weddi o ddiolchgarwch:

Arglwydd Iesu Grist,
diolchwn am dy alwad a ddaw i ni–
**galwad i fod yn ddisgybl, i wasanaeth,**
**i rannu yng ngwaith dy deyrnas.**

Diolchwn dy fod wedi ein galw fel ag yr ydym–
**gyda'n beiau, ein hamheuon,**
**a'n holl bechod.**

Diolchwn dy fod wedi ein dewis
nid drwy ein haeddiant,
**ond drwy dy ras, dy gariad a'th drugaredd.**

Diolchwn fel y bu iti ddewis dy bobl Israel,
dy ddisgyblion, dy Eglwys,
**Dy fod hefyd wedi dewis pob un ohonom ni.**

Diolchwn er ein bod yn syrthio yn brin o'r nod yn rheolaidd,
er ein bod yn anufudd i'th ewyllys,
**ac yn troi i ffwrdd oddi wrthyt,**
**fod dy bwrpas yn parhau a'th gariad yn gadarn.**

Arglwydd Iesu Grist, diolchwn dy fod wedi ein galw,
a gofynnwn yn syml, ac yn ddidwyll,
**i ti ein helpu i ymateb yn enw'r Crist. Amen.**

Nick Fawcett, *Gweddïau'r Pedwar Tymor*
(Cyfieithiad: Cyhoeddiadau'r Gair, Chwilog, 2007), tud. 485

Byddai'r weddi hon yn gweithio'n dda pe gallech chi ei thaflunio neu ei hargraffu ar gyfer y gynulleidfa.

- **Emyn o ddiolchgarwch**
  Yn yr un modd, byddai'r dewis o emyn yma yn mynegi ein diolch 'mewn ymateb' i'r addoliad rydyn ni wedi ei brofi hyd yn hyn. Edrychwch ar yr adran 'Mawl a diolch i Dduw' yn *Caneuon Ffydd*. Enghraifft dda yw 'I'n Duw, rhoddwn ddiolch glân; (Canu Clod, gol. Delyth Wyn, 220).

## Gweddïo drosom ein hunain, dros eraill a thros fyd Duw

Nid yw ein haddoliad fyth yn ymwneud â'n hynysu oddi wrth y byd; Yn hytrach, mae'n ffordd i gysylltu gyda byd Duw ac felly mae'n bwysig ein bod yn cynnig ein gweddïau nid yn unig drosom ein hunain, ond dros y rhai sydd yn y byd o'n cwmpas.

- **Gweddïau o eiriolaeth**
  Mae'r rhain yn tueddu i ffocysu yn allanol ac yn cynnwys gweddïau dros yr Eglwys,

dros bobl y byd, y rhai mewn awdurdod, y rhai yn ein cymdogaeth a'r rhai mewn angen.

Gall y rhain gymryd ffocws penodol: er enghraifft, efallai y byddwn wedi bod yn meddwl am yr alwad am gyfiawnder yn y proffwydi, ac felly, mewn ymateb, gallem weddïo am yr anghyfiawnder a welwn yn y byd. Neu efallai y gallen nhw adlewyrchu angen penodol yn y gymuned leol. Neu gallen nhw fod yn ymateb i sefyllfa benodol sydd wedi bod yn y newyddion yr wythnos honno.

Rydyn ni'n eiriol ar ran y rhai rydyn ni'n gweddïo drostyn nhw. Mae'n ddefnyddiol i'r gynulleidfa berchnogi'r gweddïau hyn mewn rhyw ffordd, yn fwyaf amlwg gyda chyfle i ymateb. Er enghraifft, o'r gwasanaeth cyntaf yn *Llyfr Addoliad y Methodistiaid*:

> Bendigaid wyt ti, Dad tragwyddol,
> **yr wyt yn deilwng o'n mawl a'n moliant yn oes oesoedd.**
>
> Gwrando ar ein gweddi dros dy Eglwys lân gatholig:
> **gwna ni oll yn un, fel y byddo'r byd yn credu.**
>
> Caniatâ i bob aelod o'r Eglwys dy wasanaethu di mewn gwirionedd a gostyngeiddrwydd:
> **fel yr adlewyrchir bywyd Crist ynom ni.**
>
> Atgyfnertha bawb sy'n gweinidogaethu yn enw Crist:
> **gwna hwy'n wrol i gyhoeddi dy Efengyl.**
>
> Ysbrydola ac arwain y rhai sydd mewn awdurdod yng nghenhedloedd y byd:
> **tywys hwy a'r holl bobl yn ffordd cyfiawnder a thangnefedd.**
>
> Gwna ni'n effro i anghenion ein cymuned:
> **cynorthwya ni i rannu llawenydd a beichiau ein gilydd.**
>
> Edrych yn garedig ar ein cartrefi a'n teuluoedd:
> **caniatâ i'th gariad dyfu yn ein calonnau.**
>
> Ysbrydola ni i fod yn drugarog wrth y rhai sydd mewn gwaeledd, galar neu drybini:
> **caniatâ iddynt ddarganfod nerth yn dy bresenoldeb.**
>
> Cofiwn am y rhai fu farw:
> **O Dad, cyflwynwn hwy i'th ofal di.**
>
> Molwn di am dy holl saint a aeth i mewn i'th ogoniant tragwyddol:
> **dwg ni oll i gyfranogi o'th deyrnas nefol di.**
>
> *Distawrwydd*

Nefol Dad,
addewaist wrando
ar yr hyn y gofynnwn amdano yn enw dy Fab:
gweddïwn arnat dderbyn ac ateb ein gweddïau,
nid am inni eu gofyn yn ein hanwybodaeth,
nid yn ôl yr hyn a haeddwn yn ein pechadurusrwydd,
ond am i ti ein hadnabod ni a'n caru yn dy
Fab, Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**.

*Llyfr Addoliad y Methodistiaid,*
(Peterborough, Methodist Publishing, 1999), tud. 34-35

- **Gweddïau o ddeisyfiad**
Fel term, caiff hwn ei ddefnyddio'n aml yn ymgyfnewidiol ag eiriolaeth, ond yma rydyn ni'n chwilio am arweiniad a chryfder i ni'n hunain yn hytrach nag i eraill. Mae 'ein hunain' yn cynnwys bywyd a gwaith y gymuned leol lle rydyn ni'n arwain yr addoliad. Mae'r gweddïau hyn yn ffocysu mwy tuag atom ni – er enghraifft, gweddïo dros anghenion yr eglwys leol neu bobl benodol o fewn ein cymdeithas: deisyfiadau dros unigolion.

- **Emyn o eiriolaeth**
Mae emynau yn Adran Cymdeithas a Byd yn *Caneuon Ffydd*, 804-873, yn rhai y gellid eu canu yn weddïau o eiriolaeth. Neu gallech chi ddarllen geiriau un o'r emynau fel sylfaen i weddi.

- **Gweddi o gyffes**
Mae'n arferol bod gweddi o gyffes yn dod yn gynnar mewn gweithred o addoli (gweler isod). Fodd bynnag, gan ddibynnu ar y thema, gall fod yn gwbl briodol offrymu gweddi o gyffes fan hyn.

- **Emyn o alarnad**
Efallai na fydd ein hymateb i Air Duw bob amser yn fawl neu hyd yn oed yn weddi; yn hytrach, gallai fod yn gynnig galarnad (ymateb gwirioneddol Feiblaidd) (er enghraifft *Caneuon Ffydd*, 753, O Iesu, maddau fod y drws ynghau.

- **Gweddïau rhyngweithiol**
Mae nifer o lyfrau ar gael sy'n awgrymu ffyrdd o offrymu gweddi drwy weithgareddau. Mae gorsafoedd gweddi yn gallu bod yn ffordd dda o ganiatáu i'r gynulleidfa weddïo ar eu cyflymder eu hunain ac i annog ymateb unigol. Mae ffyrdd eraill yn cynnwys gwahodd pobl i gynnau cannwyll ar gyfer sefyllfaoedd penodol neu osod marciau ar fap i ddangos ardaloedd rydyn ni am eu cofio yn ein gweddïau. Mae'n syniad da gwneud nodyn o'r gweddïau rhyngweithiol rydych chi wedi eu cael yn ddefnyddiol ac o bosibl i gasglu'r adnoddau fyddai eu hangen arnoch pe byddech chi'n dewis eu defnyddio. Yn aml gyda syniadau fel hyn, cyfyngu yw'r peth gorau.

- **Gweddi'r Arglwydd**
Caiff hon yn aml ei defnyddio ar ôl y gweddïau o eiriolaeth fel ffordd o ddod â'n gweddïau at ei gilydd. Mae'r weddi hon, efallai'n fwy nag unrhyw un arall, yn ymgorffori cymaint o'r hyn y bydden ni eisiau ei ddweud am Dduw ac am ein bywyd fel pobl Dduw. Fel y byddwch yn gweld, mae modd ei defnyddio'n briodol mewn amrywiaeth o lefydd.

Yn aml byddwn yn cymryd yn ganiataol fod pawb sy'n dod i'r addoliad yn gallu gweddïo Gweddi'r Arglwydd ar y cof, a gallwn eu cau allan yn anfwriadol os nad ydyn nhw'n gallu gwneud hynny. Felly mae'n arfer da cael y geiriau ar gael ar ryw ffurf. Mae dau fersiwn wedi'u hargraffu y tu mewn i glawr blaen *Caneuon Ffydd*. Mae canu Gweddi'r Arglwydd yn cynnig gwahanol brofiad o weddïo'r weddi i'r gynulleidfa – byddai rhai yn dweud ei fod yn brofiad dyfnach. Mae pedwar fersiwn o Weddi'r Arglwydd yn *Caneuon Ffydd* – 989, 990 a 991 yn defnyddio'r fersiwn traddodiadol – a 992 yn defnyddio fersiwn modern.

- **Defnyddio lluniau**
  Mae lluniau'n gallu bod yn bwerus iawn wrth weddïo am sefyllfaoedd yn y newyddion. Gallwch greu PowerPoint o ddelweddau – ac yna annog yr addolwyr i weddïo gyda'u llygaid ar agor! Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio delweddau heb hawlfraint arnyn nhw.

## Cysegru ein bywydau i wasanaeth Duw

Ar ôl diolch, rydyn ni'n ymrwymo i wneud rhywbeth. Mae llawer o ffyrdd i ni wasanaethu Duw. Dyma rai enghreifftiau:

- **Offrwm**
  Mae'r offrwm yn bwysig i sefyllfa ariannol yr eglwys, ond ar yr un pryd, efallai'n bwysicach, mae'n caniatáu i ni ymateb mewn ffordd ymarferol i gynnig yn ôl i Dduw yr hyn rydyn ni wedi'i dderbyn. Mae rhai cynulleidfaoedd yn dewis sefyll pan fydd yr offrwm yn cael ei gyflwyno, mae eraill yn dawnsio ymlaen yn llawen gyda'u hoffrwm, gydag eraill yn eistedd yn weddigar. Gallai pob un gael ei ddehongli fel y rhoddwr yn offrymu nid eu harian yn unig ond eu hunain i Dduw, sef yr hyn y mae Duw'n gofyn i ni ei roi.

  O'r holl gynhwysion y gallech chi eu cynnwys yn eich bwydlen addoli, mae dau beth allai achosi pryder pe bydden nhw'n cael eu gadael allan. Y cyntaf yw Gweddi'r Arglwydd; mae hyn oherwydd bod llawer o bobl yn credu bod Iesu wedi gorchymyn ein bod yn ei ddweud bob wythnos; wnaeth o ddim! Y llall yw'r offrwm. Mae gadael hwn allan yn ypsetio'r rhan fwyaf o drysoryddion ac yn arwain at olygfeydd rhyfedd o stiwardiaid yn ceisio dal eich llygaid o gefn y gofod addoli drwy chwifio platiau neu fagiau casglu atoch chi!

- **Gweddi o gysegriad**
  Fel arweinydd addoli neu bregethwr lleol bydd disgwyl i chi dderbyn yr offrwm. Mae'n arferol gofyn am fendith Duw ar y rhoddion ariannol ac ar y rhoddwyr wrth iddyn nhw gael eu cynnig yn ôl i Dduw, ffynhonnell popeth sydd. Yn gynyddol mae angen i ni gofio gofyn am fendith duw ar roddion ariannol sy'n cael eu cyfrannu drwy archebion sefydlog! Gellir defnyddio geiriau ffurfiol, ond yn aml mae'n well gwneud hyn o'r frest oherwydd ei bod hi'n bosibl y byddwch chi'n dal nifer o blatiau casglu!

- **Emyn**
  Mae digonedd o emynau sy'n caniatáu i'r gynulleidfa fynegi eu hymrwymiad neu eu hymroddiad i Dduw. Gwelir y rhain yn Adran 'Y Bywyd Cristnogol' yn *Caneuon Ffydd*,

672-803. Ar y pwynt yma yn y gwasanaeth, gallai'r emyn fod hefyd yn pwysleisio agwedd o'r bregeth, neu fyfyrio ar thema gyffredinol yr addoliad.

- **Galwad i wneud ymrwymiad**
  Er nad yw hyn yn addas ym mhob gwasanaeth, gall fod yna adegau pan fyddwch chi eisiau gwahodd y gynulleidfa i wneud ymrwymiad cyhoeddus, naill ai'n unigol neu'n dorfol. Gallai hyn fod yn alwad i'r blaen ("mae gwahoddiad i'r rhai sy'n dymuno cysegru eu bywyd i Grist i benlinio o flaen yr Arglwydd..." – bydden ni fel arfer yn defnyddio rheilen y cymun!). Neu gellid ei wneud drwy ailgysegru addewidion y bedydd (methodist.org.uk/media/1071/liturgy-for-reaffirmation-of-baptismal-faith-0416.pdf) neu ymrwymiad i ysgrifennu at eich AS lleol.

  Mae rhai pobl yn amharod iawn i fod yn amlwg yn y gwasanaeth ei hun, felly dull arall o wneud yr alwad i ymrwymo yw gwahodd pobl i eistedd mewn rhan benodol o'r eglwys ar ôl y gwasanaeth, gyda stiwardiaid neu'r pregethwr wedyn yn eistedd/yn gwrando/yn gweddïo gyda nhw.

  Wrth benderfynu p'un ai galw'r gynulleidfa i wneud ymateb neu beidio mae'n beth da adnabod eich cynulleidfa, tra ar yr un pryd bod yn barod i gymryd y risg drwy rym yr Ysbryd Glân.

- **Y Cymun Sanctaidd**
  Yn dechnegol, nid oes modd i'r Cymun Sanctaidd fod yn rhan o'r weithred o addoli, gan mai hwn yw'r weithred o addoli. Rydyn ni wedi ei gynnwys yn y fwydlen i'n helpu i ddeall lle y gallai'r torri bara ymddangos. O fewn y traddodiad Methodistaidd, presbyter sy'n gweinyddu'r Cymun Sanctaidd (er yn achlysurol, bydd y Gynhadledd Fethodistaidd yn caniatáu awdurdodi diacon neu berson lleyg i'w weinyddu). P'un a yw'r gwasanaeth yn cynnwys y Cymun Sanctaidd ai peidio, rydyn ni'n cynnal ein gweithredoedd o addoli gan ddisgwyl i Iesu fod yn bresennol a'n nod yw helpu pobl i ymateb yn briodol.

- **Gweddi'r Arglwydd**
  Dyma le arall y gallech chi ddefnyddio Gweddi'r Arglwydd os nad ydych wedi ei defnyddio yn barod.

# Yn ôl at y cynllunio

## Cam 3: Ymateb

Bydd aelodau'r gynulleidfa eisiau ymateb mewn dull priodol i'r hyn y maen nhw wedi'i glywed, ac felly efallai na fyddwch eisiau cynnwys popeth sydd wedi'i restru yma. Un ystyriaeth fydd yn eich helpu i benderfynu yw faint o amser sydd gennych chi ar ôl yn y weithred o addoli.

Gall yr holl eitemau gael eu gosod mewn trefn wahanol: gan fod hyn yn rhan o'r uchafbwynt, meddyliwch yn ofalus am lif yr addoliad. I ble ydych chi'n gobeithio arwain y gynulleidfa? Bydd angen i chi feddwl pwy sy'n cyflwyno pob rhan: ai dim ond chi, neu a fyddwch chi'n gofyn i eraill arwain yn yr adran Ymateb? Gwnewch eich dewisiadau yn seiliedig ar yr atebion i'r ystyriaethau hyn. Unwaith y byddwch wedi penderfynu, gwnewch nodiadau yn eich grid cynllunio.

Ar ôl dewis pa eitemau a phwy fydd yn eu cyflwyno, bydd angen i chi wedyn benderfynu pa ffurf y byddan nhw'n ei chymryd. Er enghraifft, o ble mae eich gweddïau o eiriolaeth yn dod – o lyfr neu o'r frest? Fydd angen i chi eu hysgrifennu ymlaen llaw? Gweler y canllaw uchod.

# Ymgasglu

Yn eich cynllunio, mae angen i chi yn awr ddewis symud ymlaen neu fynd yn ôl i ddechrau'r gwasanaeth. Gan fod yr adran Anfon yn fyr iawn, ond yr un mor bwysig, fe awn yn ôl at yr Ymgasglu i ystyried sut rydyn ni'n arwain pobl i bresenoldeb Duw. Mae hon yn adran bwysig gan ein bod yma yn gosod y naws ar gyfer y weithred o addoli gyfan.

| Bwydlen Addoli | Beth ydyn ni'n ei wneud? | Sut ydyn ni'n gwneud hyn? (Cynhwysion posibl) |
|---|---|---|
| ***Ymgasglu*** | Dynesu at Dduw | • Galwad i addoli<br>• Brawddeg o'r Ysgrythur<br>• Emyn(au) ymgasglu<br>• Gweddi o ddynesiad<br>• Gweddi'r Arglwydd<br>• Tawelwch |
| | Addoli Duw | • Emyn o addoliad<br>• Emyn o fawl<br>• Gweddi<br>• Tawelwch<br>• Salm neu Gantigl Ymatebol (ee *Te Deum*)<br>• Defnyddio lluniau |
| | Cyffesu ein pechodau | • Emyn edifeiriol<br>• Gweddi o gyffes<br>• Tawelwch<br>• Gweddi ryngweithiol |
| | Cynnig sicrwydd o faddeuant Duw | • Datganiad o faddeuant<br>• Emyn o sicrwydd |
| | Rhoi diolch | • Gweddi o ddiolchgarwch<br>• Y Colect<br>• Emyn o ddiolchgarwch<br>• Salm neu Gantigl Ymatebol (ee *Gloria*)<br>• Anerchiad i blant / pob oedran |

## Dynesu at Dduw

Yn yr adran hon, rydyn ni'n gwahodd aelodau'r gynulleidfa i droi eu meddyliau oddi wrth fusnes yr wythnos i ganolbwyntio eu sylw ar Dduw sydd eisoes yn bresennol. Mae'n bwysig rhoi Duw'n gyntaf yn ein haddoliad ac felly mae'n briodol gwneud hyn cyn i ni groesawu'r gynulleidfa, hyd yn oed os yw hyn yn ymddangos yn teimlo'n groes i'r graen. Gallwn wneud hyn mewn nifer o ffyrdd:

- **Galwad i addoli**
  Yma rydyn ni'n nodi cychwyn ein gweithred gynulleidfaol gyda geiriau priodol megis: "Hwn yw'r dydd a wnaeth yr Arglwydd", gyda'r gynulleidfa yn ymateb, "Llawenhawn ac ymfalchïwn ynddo!" (*Llyfr Addoliad y Methodistiaid* (Peterborough, Methodist Publishing, 2000, tud. 27).

- **Brawddeg o'r Ysgrythur**
  Er enghraifft, "Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist" (Rhufeiniaid 1:7b) (BCND).

- **Emyn ymgasglu**
  Fel y mae'r pennawd yn awgrymu, emyn sydd wedi ei fwriadu i ddod â ni at ein gilydd i ddynesu at Dduw yw hwn. Mae emynau priodol yn adran 'Galwad i addoli' *Caneuon Ffydd* (tud xxix). Bydd emynau eraill dan benawdau eraill yn y llyfr emynau yr un mor briodol – mae'n werth gwneud nodyn ohonyn nhw at y dyfodol.

- **Gweddi o ddynesiad**
  Gweddi yw hon i'n hatgoffa o bwy yw Duw a pham yr ydyn ni'n dod at ein gilydd. Mae enghraifft dda ar gael ar dudalen 39 *Llyfr Addoliad y Methodistiaid*.

  **O Arglwydd ein Duw,**
  **tragwyddol a rhyfeddol,**
  **yr hwn y gellir ymddiried ynddo yn llwyr:**
  **yr wyt yn rhoddi bywyd i bob un;**
  **yr wyt yn cynorthwyo'r rhai a ddaw atat**
  **ac yn rhoddi gobaith i'r rhai sy'n galw arnat.**
  **Dyro dy dangnefedd ar ein calonnau a'n meddyliau,**
  **fel y gallom ddwyn ein gweddïau atat**
  **gyda hyder a llawenydd;**
  **drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

- **Gweddi'r Arglwydd**
  Mae rhai pobl yn cael gosod Gweddi'r Arglwydd yn gynnar yn y gwasanaeth yn ddefnyddiol. Mae'n adleisio cyfnod cynharach pan fyddai'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r gweddïau yn cael eu hoffrymu ar ddechrau'r gwasanaeth.

- **Tawelwch**
  Yma efallai y byddwch yn rhoi cyfle i bobl fyfyrio ar y weithred o addoli y maen nhw ar fin ei phrofi mewn ffordd bersonol. Nid yw arwain pobl i dawelwch bob amser yn hawdd gan ein bod yn byw mewn byd swnllyd. Felly, mae'n arfer da awgrymu'n gryno sut y gallai aelodau'r gynulleidfa ddefnyddio'r tawelwch gan fod rhai yn gallu ei gael yn brofiad anghysurus, drwy ddweud hyn er enghraifft, "Rydyn ni am dreulio cyfnod o dawelwch i gydnabod presenoldeb Duw yn ein plith."

## Addoli Duw

Mae addoliad yn rhan o'n hymateb i hunan-ddatguddiad Duw. Fel y mae cariad yn addoli ei anwylyd, felly rydyn ni'n caru ac yn addoli'r Duw a'n carodd ni gyntaf. Os byddwn yn cydnabod presenoldeb Duw, mae'n arwain yn naturiol at addoliad: wrth i ni ddwyn i gof fawredd a gogoniant Duw, rydyn ni'n cael ein llenwi gyda theimlad o barchedig ofn a

rhyfeddod. Mae'r cynhwysion isod yn ein helpu i bwyntio at fawredd a gogoniant Duw – y rheswm dros ein haddoliad.

- **Emyn o addoliad**
  Pan fyddwn yn canu emyn o addoliad rydyn ni'n ein hatgoffa ein hunain ac yn ailffocysu ar natur dragwyddol Duw. Mewn emynau o addoliad rydyn ni'n datgan pwy yw Duw. Mae llawer o emynau o addoliad yn adran 'Mawl a diolch i Dduw' yn *Caneuon Ffydd* (tud xxix).

- **Emyn o fawl**
  Wrth gydnabod yr hyn y mae Duw wedi'i wneud i ni, mae'n naturiol ein bod yn dechrau moli. Mae llawer o emynau o fawl yn *Caneuon Ffydd*, Adran Mawl ac Addoliad, 1-60. Dylai ffocws yr emyn gychwyn ac aros gyda Duw, er enghraifft 'O cenwch fawl i'r Arglwydd, *Caneuon Ffydd*, 24.

- **Gweddi**
  Fel gydag emyn o addoliad, dylai gweddi o addoliad ganolbwyntio ar natur Duw a chydnabod *pwy yw* Duw yn hytrach na beth mae Duw wedi'i *wneud*. Mae hi weithiau'n ddefnyddiol strwythuro gweddi fel hyn gan ddefnyddio ffurf Drindodaidd, gan ganolbwyntio ar Dduw yn Dad, yn Fab ac yn Ysbryd Glân yn eu tro, ond gan fod hyn eisoes wedi cael ei ddweud, dylid ei ystyried fel strwythur defnyddiol nid rheol bendant. Er enghraifft:

  > Dduw Sanctaidd, Dad pob un, mae'r
  > greadigaeth yn dangos dy fawredd,
  > gyda'i amrywiaeth yn ein hatgoffa o helaethrwydd dy ras.
  >
  > Dduw Sanctaidd, Waredwr pob un,
  > rwyt ti wedi gorchfygu marwolaeth,
  > gan ddatgelu dy gariad tuag at holl ddynoliaeth.
  >
  > Dduw Sanctaidd, presennol i bob un,
  > rwyt yn anadlu bywyd a gwirionedd drwy gyrrau'r ddaear,
  > yn ein hatgoffa o'th rym i herio ac i drawsnewid bywydau.
  >
  > Dduw Sanctaidd, Dad, Mab ac Ysbryd Glân, fe'th addolwn di.

  cyfieithiad o © Ian Worsfold 2017
  (defnyddiwyd gyda chaniatâd)

- **Tawelwch**
  Mae defnyddio tawelwch yn y cyd-destun hwn yn ein helpu i gydnabod ein bod yn gallu cael ein tawelu gan fawredd rhyfeddod Duw yn unig. Peidiwch â bod ofn defnyddio tawelwch mewn addoliad, hyd yn oed lle mae plant a phobl ifanc yn bresennol. Efallai mai dyna mae llawer o bobl yn dyheu amdano.

- **Salmau neu Ganiadau Ymatebol**
  Dyma le arall lle gellir darllen Salm, neu hyd yn oed ei chanu. Os ydych chi'n dilyn y llithiadur mae Salm wedi'i dethol ar gyfer y gwasanaeth penodol. Efallai y byddwch yn

dewis cael y salm wedi'i darllen, ei chael wedi'i dweud yn ymatebol (gweler uchod) neu efallai y gellir canu fersiwn wedi'i aralleirio, ee *Caneuon Ffydd* 62.

Mae Caniadau'n debyg iawn i Salmau o ran arddull – yn eu hanfod emynau ydyn nhw wedi eu ffurfio ar destun o'r Beibl megis y Magnificat neu 'Gân Mair' yn seiliedig ar Luc 1:46-55. Maen nhw ar gael yn *Caneuon Ffydd* rhifau 980-984). Mae modd eu llefaru neu eu canu gan ddefnyddio nifer o osodiadau cerddorol, ee 'O f'enaid cân' (*CFf* 433) sy'n adleisio'r Magnificat.

- **Defnyddio delweddau**
  Rydyn ni'n byw mewn oes o ddelweddau ac mae dywediad sy'n nodi bod llun yn gallu peintio 1,000 o eiriau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod angen i chi ddewis delweddau yn ofalus gan y gallen nhw dynnu oddi wrth yr addoliad yn hytrach na'i wella. Mae gan lawer o eglwysi bellach y gallu i daflunio delweddau neu glipiau fideo. Gallech chi hefyd ddosbarthu copïau bach wedi eu hargraffu o ddelweddau neu eu hargraffu ar yr hysbyslen. Efallai y byddwch am ofyn i'r gynulleidfa fyfyrio ar y groes, ar eicon, ar gannwyll neu ar faner neu ddarn o gelf.

  Wrth ddewis delweddau gwnewch yn siŵr fod gennych chi ganiatâd i'w defnyddio neu eu bod yn rhydd o hawlfraint

## Cyffesu ein pechodau

Wedi cydnabod daioni a pherffeithrwydd Duw, fedrwn ni ddim peidio cydnabod ein methiant i gadw at y safonau uchel sy'n cael eu gosod i ni gan Iesu, yn unigolion ac yn gymuned sy'n addoli. Wrth gyffesu ein pechodau, rydyn ni'n bod yn agored ac yn onest o flaen Duw ac yn cael gwared ar unrhyw rwystr potensial allai fod yn sefyll rhyngom ni ag ymgysylltu'n llawn gyda Duw mewn addoliad.

- **Emyn edifeiriol**
  Wrth i ni ddod o flaen Duw gyda'n gilydd mewn addoliad, gall fod yn ddefnyddiol canu am ein pechodau fel cynulleidfa. Mae dau bennawd ar dudalen xliv yn *Caneuon Ffydd* sy'n gwneud hyn yn uniongyrchol, 'Euogrwydd am bechod' ac 'Edifeirwch'. Mae'r emyn 'Y Gŵr fu ar Galfaria', *Caneuon Ffydd* 716 yn gweithio'n arbennig o dda gan ei fod yn cydnabod agweddau unigol a chorfforaethol ein pechod. Mae yna emynau eraill gyda naws edifeiriol i'w cael yn *Caneuon Ffydd*.

- **Gweddi o gyffes**
  Dylai'r weddi hon amlygu'r gwahaniaethau rhwng natur berffaith Duw a'n natur syrthiedig ni. Er enghraifft, tra bod Duw yn hael yn cyflwyno rhoddion, gallwn ni fod yn hunanol wrth ddefnyddio ein rhai ni. Mae gweddi o gyffes yn fwyaf effeithiol pan mae'n cynnwys hanfod o droi cefn ar ein ffyrdd pechadurus a throi'n ôl at Dduw – dyna beth yw ystyr edifeirwch. Mae cynnwys ymateb gan y gynulleidfa yn gallu bod yn ddefnyddiol er mwyn i bawb sy'n bresennol deimlo ei bod yn 'perchnogi'r' weddi. Dyma enghraifft o weddi o gyffes:

  **O Dduw'r trugaredd,**
  **mae dy gariad atom yn gadarn,**
  **ond mae ein cariad atat ti yn wan.**
  **Gelwi arnom i ddilyn Iesu,**
  **ond araf ydym i ufuddhau.**

**Yr wyt yn gofalu am bopeth a greaist,**
**ond anwybyddwn ni anghenion pobl eraill**
**a chamddefnyddiwn ein creadigaeth.**
**Rydym yn flin am ein pechodau. Maddau i ni,**
**a chynorthwya ni i roi boddhad i ti**
**yn y ffordd yr ydym yn byw;**
**drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

*Llyfr Addoliad y Methodistiaid* (Peterborough, Methodist Publishing House, 2000), tud 198

(Mae'r weddi hon sy'n dod o litwrgi'r Cymun Sanctaidd, yn cael ei hadrodd gan y gynulleidfa gyfan. Gallwch, wrth gwrs, ei defnyddio mewn gwasanaethau eraill.)

- **Tawelwch**
  Fel y nodwyd uchod, mae tawelwch yn gallu bod yn ffordd ddefnyddiol o alluogi'r gynulleidfa i ymgysylltu mewn ffordd bersonol. Mae hyn yn gallu bod yn arbennig o wir mewn perthynas â chydnabod ein brwydrau a'n methiannau personol o flaen Duw. Mae modd cynnig tawelwch fel rhan o weddi o gyffes fwy strwythuredig hefyd, drwy ddweud, er enghraifft, "Gadewch i ni dreulio amser mewn tawelwch i gydnabod ein pechodau ein hunain o flaen Duw."

- **Gweddi ryngweithiol**
  Weithiau nid yw geiriau yn unig yn ddigon i fynegi ein cyffes ac yn hytrach gellir gwahodd y gynulleidfa i wneud rhywbeth mewn ffordd weledol a chyfranogol sy'n mynegi ein cyffes. Er enghraifft, gellid gwahodd y gynulleidfa i ysgrifennu eu cyffes ar ddarn o bapur sydd wedyn yn cael ei gario i'r blaen, ac yna ei garpio neu ei losgi. Bydd angen i chi feddwl yn ofalus am sut y bydd hyn yn gweithio! Wrth gwrs, mae modd defnyddio gweddïo rhyngweithiol yn effeithiol mewn rhannau eraill o'n haddoliad hefyd.

## Cynnig sicrwydd o faddeuant Duw

Wedi cyffesu ein pechodau mae'n bwysig ein bod ni'n cael ein galluogi i ddiosg baich euogrwydd, neu fel arall gallen ni fod yn sownd yn seicolegol yn y fan hon. Felly dylai gweddi o gyffes bob amser gael ei dilyn drwy ddatgan maddeuant Duw.

- **Datganiad o faddeuant**
  Yma fe glywn ddatganiad Duw o faddeuant, sy'n rhan bwysig o'r efengyl. Dylid datgan hyn yn glir o fewn addoliad Cristnogol.

  Mae amryw o enghreifftiau o eiriau'r datganiad o faddeuant yn *Llyfr Addoliad y Methodistiaid*. Byddwch yn sylwi fod rhai yn cael eu rhoi yn y person cyntaf ("a roddo i chwi faddeuant") a rhai yn yr ail berson ("maddau ein pechodau"). Mae angen i chi feddwl beth yw eich rôl ar y pwynt yma yn yr addoliad a sut y gallwch gyfleu orau yr hyn y mae Duw wedi'i gynnig i bob un ohonom.

Yr hollalluog a thrugarocaf Dduw
a roddo i chwi faddeuant oddi
wrth eich holl bechodau,
amser i wir edifarhau
a gwella eich bywyd,
a gras a diddanwch yr Ysbryd Glân. Amen.

Cariad yw Duw,
ac y mae'n maddau ein pechodau drwy Iesu. **Amen.**

*Llyfr Addoliad y Methodistiaid* (Peterborough,
Methodist Publishing House, 2000), tud 149, 199

Mae'n dda pan fydd cynulleidfaoedd yn ymateb i'r datganiad o faddeuant. Y ffordd amlycaf yw gwahodd y gynulleidfa i ymateb drwy ddweud 'Amen'. Gallech chi hefyd ofyn i'r gynulleidfa ymateb yn eu geiriau eu hunain, gan gydnabod maddeuant Duw drostynt eu hunain ac felly gyfranogi yn yr agwedd bwysig hon o stori'r efengyl.

- **Emyn o sicrwydd**
  Dylai hyn geisio atgyfnerthu gwirionedd maddeuant Duw, yn hytrach nag atgyfnerthu ein pechadurusrwydd. Chwiliwch am emynau ar edifeirwch a maddeuant yn *Caneuon Ffydd*. Wrth ddefnyddio emyn o edifeirwch a/neu faddeuant gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y geiriau'n ofalus. Dydych chi ddim wir eisiau offrymu gweddi o faddeuant ac wedyn gofyn i'r gynulleidfa ddechrau canu am eu pechodau yn syth ar ôl y weddi!

## Rhoi diolch

- **Gweddi o ddiolchgarwch**
  Os yw gweddïau o addoliad, ar y cyfan, yn cydnabod pwy yw Duw, gellir ystyried gweddïau o ddiolchgarwch fel rhai sy'n cydnabod yr hyn y mae Duw wedi'i wneud a'r hyn y mae'n parhau i'w wneud hyd heddiw. Mewn gwirionedd, mae'r rhestr o bethau rydyn ni eisiau diolch i Dduw amdanyn nhw yn ddiddiwedd.

- **Y Colect**
  Mae hon yn weddi sy'n casglu ein holl weddïau yn un. Mae Colect yn cael ei gynnig ar gyfer pob Sul yn y flwyddyn o dudalen 523 *Llyfr Addoliad y Methodistiaid* a gellir eu gweld fel dolen rhwng 'Ymgasglu' a 'Chlywed Gair Duw'.

- **Emyn o ddiolchgarwch**
  Caniatewch i'r gynulleidfa gyfan fynegi ei diolchgarwch. Mae Adrannau Mawl a diolch i Dduw a Mawl a diolch i Iesu yn y Mynegai i gynnwys emynau Caneuon Ffydd, xxix, yn cynnig emynau addas.

  Mae'r potensial i fynegi diolch drwy emynau bron mor ddiddiwedd â'r diolch y byddwn yn ei roi!

- **Salm neu Gantigl Ymatebol**
  Gweler uchod.

- **Anerchiad i blant / pob oedran**

  Yn dechnegol, mae hyn yn fwy o bont rhwng 'Ymgasglu' a 'Chlywed Gair Duw'. Gallai'r pregethwr neu'r arweinydd addoli ei ddefnyddio i gyflwyno thema neu gysylltu'r hyn sy'n mynd i ddigwydd yn y gynulleidfa gyda'r hyn fydd yn digwydd mewn rhan arall o'r adeilad yn yr Ysgol Sul neu rywbeth tebyg, os yw hynny'n rhan o arfer yr eglwys.

  Mae llawer o ffyrdd i fynd i'r afael ac i ymgysylltu â phobl ifanc. Yr allwedd i lwyddiant yw bod yn rhyngweithiol yn hytrach nag yn ddidactig (bwriadu addysgu). Gallwch ddod o hyd i lawer o adnoddau ar-lein neu wedi eu hargraffu (ee [rootsontheweb.com/ about-roots/adult-all-age-resources](rootsontheweb.com/about-roots/adult-all-age-resources)) i'ch helpu chi, ac mae'n werth gwneud nodyn o syniadau da ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, yn aml y syniadau gorau yw'r rhai rydych chi'n eu creu eich hun gan y byddwch yn gallu eu cyflwyno gydag ymdeimlad o berchnogaeth. Mae'n syniad da fel arfer i beidio â chynllunio sgwrs neu weithgaredd plant gan ddisgwyl i grŵp o blant 'roi'r ateb cywir i chi' – gallwch fod yn sicr na fydd hynny'n digwydd a gallwch gael eich hun mewn trafferth. Byddwch yn barod i wrando gan yr hyn y gallan nhw ei roi i chi yw golwg newydd ar ffyrdd Duw.

  Rhai pethau i'w hystyried:

  **Cofiwch**
  Ei gadw'n syml
  Byddwch yn hyderus neu defnyddiwch rywun sy'n hyderus
  Ei wneud yn berthnasol i'r gynulleidfa gyfan
  Gwnewch yn siŵr fod cymaint o addoliad â'r gweddill

  **Peidiwch â**
  Bod yn nawddoglyd
  Sgriptio'r rhan yma o'r gwasanaeth
  Defnyddio'r bobl ifanc fel adloniant

  Mewn rhai eglwysi Methodistaidd byddwch yn cael gwybod nad ydyn nhw byth yn gweld plant yn yr oedfa. I'r eglwys leol efallai mai dyna sut mae pethau'n ymddangos ond mae hi fel arfer yn syniad da paratoi rhywbeth rhag ofn i chi gael eich dal allan. Yn aml gall anerchiad da pob oedran fod yn fwy cofiadwy na phregeth. Siaradwch gyda'ch mentor am sut maen nhw'n paratoi'r adran hon o'r addoli. Mae "pob oedran" yn pontio'r cenedlaethau felly rydych chi'n anelu at ganiatáu i bawb sy'n bresennol ymuno yn yr addoli, nid dim ond un ystod oedran yn unig. Wrth gwrs, dylai hyn fod yn wir i'r addoliad cyfan!

# Yn ôl at y cynllunio

## Cam 4: Ymgasglu

Wrth ddewis eich cynhwysion ar gyfer yr Ymgasglu bydd angen i chi feddwl am osod naws yr addoliad. Bydd cwrdd addoli dros frecwast i blant yn galw am naws wahanol iawn i wasanaeth gyda'r nos gyda Methodistiaid defosiynol hŷn. Fodd bynnag, yn y ddau wasanaeth byddwch yn ceisio atgoffa'r bobl sydd wedi dod at ei gilydd eu bod nhw ym mhresenoldeb Duw, felly byddwch yn ofalus. Yr allwedd i'ch dewis fydd gwybod pam rydych chi wedi hepgor agweddau penodol o'r addoli gan gadw mewn cof y byddai'r gwasanaeth yn un hir iawn pe byddech chi'n cadw pob un ohonyn nhw!

Gan feddwl am yr hyn rydych chi wedi'i gynllunio hyd yn hyn, dewiswch yn ofalus sut byddwch yn arwain pobl i bresenoldeb rhyfeddol Duw. Ychwanegwch y rhain at eich taflen gynllunio – fyddwch chi ddim, wrth gwrs, yn gallu gwneud popeth a bydd angen i chi ystyried gofynion lleol megis a fydd plant yn bresennol yn y rhan hon o'r addoliad.

# Anfon

Rydyn ni'n awr yn troi ein sylw at adran olaf y gwasanaeth ac yn ystyried sut y bydd yn dod i ben gan ein harfogi i fynd yn ôl i'r byd i barhau ein haddoliad drwy ein bywyd a thrwy fod yn ddisgybl.

| Bwydlen Addoli | Beth ydyn ni'n ei wneud? | Sut ydyn ni'n gwneud hyn? (Cynhwysion posibl) |
|---|---|---|
| *Anfon* | Mynd allan i fyw fel disgyblion | • Gair i herio<br>• Gweddi o ollyngiad<br>• Y Fendith |

## Mynd allan i fyw fel disgyblion

Yn debyg i'r coffi ar ddiwedd pryd o fwyd, does dim angen rhywbeth rhy hir yn yr adran hon. Fodd bynnag, mae hi'n bwysig:

- wybod bod y gwasanaeth wedi dod i ben
- teimlo ein bod yn cael ein comisiynu mewn rhyw ffordd i fyw fel pobl Dduw yn yr wythnos sydd o'n blaenau.

- **Gair i herio**
  Gallai hyn bigo i fyny ar y thema sydd wedi cael ei harchwilio drwy gydol yr addoliad. Er enghraifft, mewn ymateb i hanes Pedr yn cerdded ar y dŵr: "Dos i gymryd risgiau dros Dduw; dos allan o'r cwch a chanolbwyntia ar Grist!"

- **Gweddi o ollyngiad**
  Yma rydyn ni'n cael ein hanfon, ac yn y ffordd fwyaf cwrtais, yn cael ein hel allan! Fe ddown ar draws geiriau fel hyn ar ddiwedd gwasanaeth cymun:

  > Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
  > **Yn enw Crist, Amen.**

  *Llyfr Addoliad y Methodistiaid* (Peterborough, Methodist Publishing House, 2000), tud 210

- **Y Fendith**
  Nid yn unig bod angen i ni gael ein hanfon, mae angen i ni wybod ein bod yn cael ein hanfon gyda bendith Duw. Dyma rai enghreifftiau nodweddiadol:

  > Bendith Duw,
  > y Tad, Y Mab, a'r Ysbryd Glân a fyddo
  > gyda chwi/ni yn wastad. **Amen**.

Bendithied yr Arglwydd chwi a chadwed chwi;
llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnoch
a bydded yn drugarog wrthych;
edryched yr Arglwydd arnoch yn garedig
a rhodded i chwi ei dangnefedd. Amen.

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist,**
**a chariad Duw,**
**a chymdeithas yr Ysbryd Glân,**
**fyddo gyda ni oll hyd byth. Amen.**

*Llyfr Addoliad y Methodistiaid* (Peterborough, Methodist Publishing House, 2000), tud 197, 506, 383

# Yn ôl at y cynllunio

## Cam 5: Anfon

Dylech chi nawr allu gweld llif eich gwasanaeth. Nawr mae angen i chi feddwl sut y bydd yn dod i ben. Cwblhewch eich grid cynllunio.

## Cam 6: Adolygu a meddwl sut y bydd yn gweithio

Un o'r peryglon o'r dull cynllunio hwn yw y bydd yr addolwyr yn gallu gweld yr uniadau rhwng y camau! Eich gwaith chi nawr yw gwneud i lif yr addoliad deimlo'n ddiwnïad.

Ffordd dda o wneud hyn yw adolygu eich dewis o emynau. Ydy'r cyfuniad yn dda? Ydy geiriau'r emynau yn eich arwain i'r cyfeiriad rydych chi'n anelu at fynd? Os nad ydych chi'n siŵr, gofynnwch i gerddor lleol eich helpu chi. Byddan nhw wedi cael llawer o brofiad a bydd llawer ohonyn nhw'n hapus iawn i rannu eu profiad gyda chi.

Nawr mae'n syniad da i fynd yn ôl at y Ffurflen Cynllunio a Myfyrio ar Wasanaeth. Dylech chi fod yn gallu ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau ar y ffurflen bellach. Os ydych chi'n dal yn ansicr, gallai sgwrs gyda'ch mentor neu stiward yr eglwys leol fod yn ddefnyddiol ar y pwynt yma.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwirio eich trefniadau i gyd gyda'r stiward lleol – peidiwch â chymryd unrhyw beth yn ganiataol – bydd gan bob eglwys ei gwahaniaethau ei hun.

## Cam 7: Rhoi cnawd am yr esgyrn

Os ydych chi wedi dilyn y dull cynllunio bwydlen yma, fe ddylai fod gennych chi sgerbwd o weithred o addoli fydd yn 'gweithio'. Ond nid dyma'r diwedd, wrth gwrs. Bydd angen i chi lenwi pob elfen oni bai eich bod wedi gwneud hynny'n barod. Yn y camau cynnar efallai y byddwch yn fwy cysurus yn ysgrifennu rhywbeth sy'n agosach at sgript llaw ar gyfer eich gweithred o addoli – ond ceisiwch osgoi glynu at y sgript pan fyddwch yn ei gyflwyno! Mae pawb yn gallu bod yn nerfus felly mae'n beth call cael rhai o'r sylfeini wedi eu nodi ar bapur. Er enghraifft:

- Bod yn ymwybodol cyn cychwyn beth yw eich galwad i addoli.
- Cael nodyn o'r weddi y byddwch yn ei defnyddio wrth i gyflwyno'r offrwm.
- Gwneud yn siŵr fod gennych chi gopi o Weddi'r Arglwydd – mi fyddech chi'n synnu faint o bregethwyr sy'n ei hanghofio pan maen nhw'n ei arwain! (Mae copi tu mewn i glawr blaen *Caneuon Ffydd*.)
- Dewis y weddi anfon y byddwch yn ei defnyddio – ei hysgrifennu ar bapur, hyd yn oed os yw'n weddi rydych chi wedi ei dweud sawl gwaith o'r blaen, fel Gweddi'r Arglwydd uchod.

Tasg arall yw meddwl sut y byddwch chi'n arwain y gynulleidfa drwy'r gwasanaeth heb fynd yn rhagweladwy neu'n ddiflas.

Fe fydd, gobeithio, rhai pobl yn y gynulleidfa sy'n newydd i'r eglwys ac felly ddim yn gyfarwydd â beth mae cynulleidfa 'wastad' yn ei wneud. Felly meddyliwch am sut i helpu pobl sydd ddim yn siŵr. Byddwch yn glir ynghylch ble i sefyll, pa bryd i eistedd ac ati, ac i'r rhai sy'n methu sefyll ar gyfer yr emynau neu'r offrwm, efallai y bydden nhw'n croesawu cael caniatâd i barhau i eistedd.

Mae "Gadewch i ni ganu emyn rhif 690 yn *Caneuon Ffydd*" yn glir, ond efallai braidd yn ddi-liw a gall wneud i'r gwasanaeth deimlo'n anghydlynol. Efallai y byddai naratif fel hyn yn well "Rydyn ni'n clywed atseiniau o'r Rhufeiniaid, pennod 12 lle mae Paul yn annog ei ddarllenwyr i gynnig eu cyrff yn aberth bywiol, felly gadwch i ni sefyll i ganu emyn 690 yn *Caneuon Ffydd*, "Tydi, a ddaethost gynt o'r nef".

Mae'r sgìl o ddilyn llinyn stori yn ddefnyddiol drwy gydol y gwasanaeth gan ei fod yn helpu i arwain y gynulleidfa drwy'r fwydlen rydych chi'n ei chynnig ac fe allai awgrymu pam rydych chi wedi gwneud y dewisiadau penodol hynny. Felly yn hytrach na dweud "Gadewch i ni wrando ar ein darlleniad" neu "Dyma'r darlleniad o'r Hen Destament", gallai arddull storïol ddweud "Rydyn ni'n parhau i feddwl am addewidion Duw wrth i ni glywed darlleniad o'r Hen Destament lle mae Duw'n siarad gyda Noa yn dilyn 40 dydd a 40 nos o law."

# Datblygu eich sgiliau

Mae'r canllaw hwn wedi ceisio gosod allan yn glir beth sy'n ganolog i'r hyn y byddwch yn astudio wrth i chi hyfforddi i fod yn arweinydd addoli neu'n bregethwr lleol. Fe gydag unrhyw ganllaw sylfaenol, mae nifer o fylchau fydd yn cael eu llenwi wrth i chi weithio drwy Addoli: Arwain a Phregethu. Fodd bynnag, gobeithio bod digon yma i'ch helpu chi i ddechrau creu eich dewislenni addoli cyffrous eich hun i Dduw ac i bobl Dduw.

Un o'r pethau y mae llawer o bregethwyr yn cael trafferth i'w wneud yw dewis emynau addas ar gyfer addoli. Mae'r rhestr o emynau Cymraeg a gyhoeddir ar wefan rootsontheweb.com yn ddefnyddiol os ydych yn dilyn y llithiadur. Byddai'n syniad ymgyfarwyddo â chopi cerddoriaeth Caneuon Ffydd a'r Mynegai i Gynnwys yr Emynau. Mae gwefan gobaith.cymru yn adnodd defnyddiol ar gyfer geiriau, cyflwyniadau PowerPoint a chlipiau fideo o emynau Cymraeg ac i ganfod pa emynau Saesneg sydd ar gael yn Gymraeg.

Mae dewis emynau yn fwy na dod o hyd i eiriau fydd yn addas i'ch thema – mae canfod cydbwysedd mewn gweithred o addoli hefyd yn gelfyddyd. Un ffordd o wneud hyn yw sicrhau bod yr emynau ar wahanol fesurau. Mae peth arweiniad ar gael yma.

Os ydych chi am fynd â'ch paratoadau i arwain addoli ymhellach wrth i chi baratoi i gychwyn Modiwl 1, dyma rai awgrymiadau:

**Ymgasglu**

- Edrychwch am emynau am ymgasglu yn yr adran Dechrau a Diwedd Oedfa yn Caneuon Ffydd.
- Defnyddiwch weddi o *Lyfr Addoliad y Methodistiaid* a'i hail-ysgrifennu yn eich geiriau eich hun er mwyn iddi fod yn addas ar gyfer addoliad pob oedran neu addoliad dull caffi.
- Edrychwch am emynau o fawl a diolchgarwch sydd y tu allan i'r Adran o'r enw yna.
- Chwiliwch am emynau yn *Caneuon Ffydd* sydd wedi eu seilio ar y Salmau.
- Ysgrifennwch eich gweddi o addoliad, mawl a diolchgarwch eich hun – byddwch yn glir yn eich meddwl eich hun beth yw'r gwahaniaethau rhwng y tri phwyslais.
- Dechreuwch gofnod o syniadau da ar gyfer gweddïau rhyngweithiol.
- Dechreuwch ddatblygu banc o ddelweddau electronig allai fod yn gymhorthion defnyddiol i weddïo.

**Clywed Gair Duw**

- Dechreuwch grynhoi casgliad o sgetshis fydd yn ddefnyddiol mewn addoliad.
- Dewiswch ddarn o'r Beibl a'i osod allan wedi'i ddramateiddio.
- Darllenwch yr un darn o'r Ysgrythur o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig, beibl.net a Beibl William Morgan*. Meddyliwch pryd y gallai fod yn fwyaf priodol i ddefnyddio pob un.
- Ceisiwch ail-ddweud stori o'r Beibl yn eich geiriau eich hun.

- Ceisiwch lunio rhai cwestiynau agored fyddai'n arwain at drafodaeth mewn gwasanaeth arddull caffi.

**Ymateb**

- Drafftiwch rai strwythurau ar gyfer gweddïau o eiriolaeth. Er enghraifft, canolbwyntiwch ar yr unigolyn i ddechrau, wedyn ar yr eglwys, y gymuned a'r wlad, ac yna'r byd.
- Ysgrifennwch weddi o eiriolaeth, yna ailddrafftiwch ar gyfer gwahanol arddull o addoliad.
- Dechreuwch wneud rhestr o syniadau gweddïau rhyngweithiol.
- Meddyliwch am ffordd wahanol o wneud ein hoffrwm ariannol.
- Ystyriwch pryd y gallai fod yn briodol gwneud 'galwad i ymrwymo' a phryd na fyddai hynny'n briodol.
- Myfyriwch ar y lle mwyaf addas ar gyfer rhannu cyhoeddiadau a'r ffordd orau i wneud hynny.

**Anfon**

- Meddyliwch yn ôl i'r tro diwethaf i chi glywed galwad i fynd i'r byd a wnaeth wahaniaeth. Holwch eich hun, "Pam gwnaeth hi hynny?"
- Meddyliwch am ddull amgen o gloi gwasanaeth yn hytrach na gweddi o fendith neu'r gras.
- Meddyliwch am beth i'w wneud ar ôl y fendith: sut byddwch chi'n gadael y gofod addoli? Fyddwch chi'n eistedd i lawr ac yn gweddïo? Yn ymdeithio allan? Dweud hwyl fawr wrth y rhai sydd wedi bod yn yr addoliad? Dechreuwch sylwi beth mae pregethwyr eraill yn ei wneud, a meddyliwch sut y gallai beth sy'n briodol wahaniaethu o'r naill gyd-destun i'r llall.

# Atodiad

## Cynllunio, gan ddefnyddio amlinelliad y fwydlen

| Bwydlen Addoli | Beth ydyn ni'n ei wneud? | Sut ydyn ni'n gwneud hyn? (Cynhwysion posibl) |
|---|---|---|
| *Ymgasglu* | Dynesu at Dduw | |
| | Addoli Duw | |
| | Cyffesu ein pechodau | |
| | Cynnig sicrwydd o faddeuant Duw | |
| | Rhoi diolch | |

| | | |
|---|---|---|
| ***Clywed Gair Duw***<br><br>(Gweinidogaeth y Gair) | Troi at yr Ysgrythurau | |
| | Gwrando am Dduw drwy esbonio'r Ysgrythurau a dehongli Gair Duw | |
| ***Ymateb*** | Rhoi diolch | |
| | Gweddïo drosom ein hunain, dros eraill a thros fyd Duw | |
| | Cysegru ein bywydau i wasanaeth Duw | |
| ***Anfon*** | Mynd allan i fyw fel disgyblion | |

# Nodiadau

# Nodiadau

Addoli: arwain a phregethu



Yr Eglwys **Fethodistaidd**

Cynhyrchwyd gan Methodist Publishing ar ran y Tîm Gweinidogaeth:
Galwad ac Addoliad, Yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain.

Rhif elusen gofrestredig 1132208
© Ymddiriedolwyr Dibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2018

WLP01WEL18